# SUT MAE TIRWEDD ERYRI WEDI CAEL EI LLUNIO GAN LECHI?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio llechi fel defnydd, gan edrych ar ei briodweddau a'r defnydd a ohono. Maen nhw'n darganfod sut roedd llechi'n cael eu cloddio yn y gorffennol ac yn ystyried yr amodau gwaith caled yn y 19eg Ganrif a llafur plant. Mae dysgwyr yn cynhyrchu fideo am fywyd bob dydd plentyn yn ystod y cyfnod hwn cyn ystyried llafur plant ar draws y byd heddiw. Maent yn astudio tranc y diwydiant llechi a sut mae'r diwydiant wedi effeithio ar dirwedd Eryri. Wrth ddarganfod am adfywio tirweddau, mae dysgwyr yn meddwl sut y gallai tirwedd llechi Eryri fod wedi cael ei hadfywio'n wahanol. Defnyddiant ddyfyniad UNESCO: 'sut mae pobl a thirwedd yn medru cydweithio' ar gyfer disgrifio tirwedd Eryri, gan greu arddangosfa o ffotograffau sy'n arddangos y dyfyniad ar waith. Yn olaf, maent yn asesu gwerth cloddio am lechi.

# CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

# ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio fideo, e.e. ffonau symudol, tabledi, camerâu fideo.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. camerâu, ffonau symudol, tabledi, ac ati.

# GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW LLECHI?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar lechi, eu priodweddau a'r defnydd a wneir ohonynt.

## Sgrîn 3

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored er mwyn dod o hyd i ddarn o lechen.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut olwg sydd ar y lechen?
- Sut deimlad sydd i'r lechen?
- Pe byddai'n rhaid i chi ddisgrifio llechen i rywun sy'n ddall, pa ansoddeiriau fyddech chi'n eu defnyddio? Rhestrwch nhw yn y blwch.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu hansoddeiriau gyda phobl eraill. Yna, dylech eu hannog i fyfyrio arnynt ac ychwanegu unrhyw ansoddeiriau da y mae pobl eraill wedi eu defnyddio i ddisgrifio llechen.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio eu hansoddeiriau i ysgrifennu cerdd acrostig am lechen. Darperir templed ar gyfer gwneud hyn, ar y sgrîn.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, darperir rhestr o briodweddau llechi.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i geisio cwblhau'r tabl i ddangos sut rydym ni'n defnyddio priodweddau llechi i wneud pethau. Bydd rhai pethau yn gwneud defnydd o fwy nag un briodwedd.

TASG 2

# EDRYCH YN ÔL AR LECHI

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am yr amodau gwaith llym oedd yn bodoli yn y 19eg Ganrif, cyn ystyried llafur plant.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pobl wedi bod yn cloddio llechi yng ngogledd Cymru ers dros 1,800 o flynyddoedd ac yna darllenwch weddill y testun iddynt.

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, eglurir sut mae'r cyfnod o ffyniant yn y diwydiant llechi yn gysylltiedig â dechrau'r Chwyldro Diwydiannol yn y 18fed Ganrif. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl fod...
    - y Chwyldro Diwydiannol wedi dechrau yn y 18fed ganrif
    - pobl yn gweithio mewn melinau, ffatrïoedd a ffowndrïau yn hytrach na gweithio gartref
    - angen tai newydd ger melinau, ffatrïoedd a ffowndrïau?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, disgrifir sut y daeth llechi yn un o ddiwydiannau pwysicaf Cymru.

## Sgrîn 6

Yma, rhoddir gwybodaeth hanesyddol ynghylch sut y cloddiwyd llechi. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol. **Cwestiynau ffocws**

- Sut oedd yr amodau i'r gweithwyr, yn eich barn chi?
- Pe byddai'n rhaid i chi wneud un o'r rolau uchod, pa un fyddech chi'n ei dewis? Pam?

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, ceir dyfyniad o The Age of Slate, gan Michael Burn, sy'n son am weithio mewn chwarel lechi yn y gorffennol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut fyddech chi'n teimlo os mai hyn fyddai eich bywyd bob dydd?
- Pam ydych chi'n meddwl bod yn rhaid i blant weithio yn y chwareli, bryd hynny?
- Beth yw eich barn am blant yn gweithio?

## Sgrîn 8

Mae'r testun ar y sgrîn yn disgrifio'r amodau gwaith anodd yn y 19eg Ganrif, ac yn cyfeirio at lafur plant.
Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ymchwilio ar-lein i ddarganfod mwy am lafur plant yn ystod y 19eg Ganrif a'u bod am gynhyrchu fideo dwy funud o hyd, yn son am fywyd bob dydd plentyn bryd hynny.

## Sgrîn 9

Er mwyn paratoi ar gyfer eu hymchwil, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble byddwch chi'n chwilio am wybodaeth? Pam chwilio yn y mannau hyn?
- Pa dechnegau chwilio y gallai fod angen i chi eu defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n gwerthuso pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi? Pam ei gwerthuso fel hyn?
- Sut byddwch chi'n cysylltu â'ch ffynonellau tystiolaeth yn y ddogfen? Pam ei wneud fel hyn? Sut arall allech chi ei wneud?

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen i aelodau pob grŵp gydweithio er mwyn cynhyrchu eu fideo. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy sy'n mynd i wneud beth yn eich grŵp? Pam?
- A ydych chi'n mynd i weithio mewn parau neu drioedd neu'n unigol? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei ddarganfod? Pam ei wneud fel hyn?
- Sut ydych chi'n mynd i rannu canfyddiadau eich ymchwil ag eraill? A ellid gwneud hyn yn ddigidol? Os felly, sut?

- Sut ydych chi'n mynd i ffilmio'ch fideo? Pwy sy'n mynd i'w ffilmio?
- Sut byddwch chi'n ysgrifennu sgript ar gyfer eich fideo – fesul pâr, fesul tri neu'n unigol?
- Pwy sy'n mynd i actio yn eich fideo? Pam?

Yna, gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu hymchwil a chynhyrchu eu fideo.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu fideo gyda'r dosbarth, a gofynnwch iddyn nhw roi adborth ar y canlynol:

- Pa mor dda roedd y fideo yn adlewyrchu canfyddiadau eu hymchwil nhw eu hunain.
- Pa mor dda roedd y  fideo am ddangos bywyd bob dydd plentyn sy'n gweithio yn y 19eg Ganrif.
- Un neu ddau o syniadau a allai fod wedi gwella'r fideo.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio dau neu fwy o'r ymadroddion ar ddechrau brawddegau, wrth iddynt fyfyrio ar wneud y fideo.

## Sgrîn 13

Dangoswch y fideo: Child labour rises globally for the first time in decades (tua 2 funud o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaeth eich synnu neu roi sioc i chi ynghylch y fideo?
- Pam ydych chi'n meddwl bod llafur plant wedi cynyddu?
- Beth yw eich barn am y prosiectau i sicrhau bod plant yn dal i fynd i'r ysgol? A hoffech chi fod yn rhan o un o'r mathau hyn o brosiectau? Pam?
- Beth arall ddylem ni ei wneud ynghylch llafur plant, yn eich barn chi? Pam?

TASG 3

# BETH DDIGWYDDODD I'R CHWARELI LLECHI?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried sut y bu i'r diwydiant llechi fynd yn llawer llai pwysig a'r ffyrdd y mae'r dirwedd wedi newid oherwydd y diwydiant.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion am dranc y diwydiant llechi. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun ac ateb y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Pam wnaeth pob un o'r ffactorau hyn helpu i roi diwedd ar uchafiaeth gogledd Cymru fel cynhyrchydd llechi?

## Sgrîn 4

Dangoswch y fideo: Eryri 70 (tua dwy funud a hanner o hyd), yna gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae Eryri wedi newid dros 70 mlynedd?
- Beth sydd yr un fath ar ôl 70 mlynedd? Pam ydych chi'n meddwl bod y pethau hyn yr un fath?
- A ydych chi'n meddwl y dylai mwy o bethau fod wedi newid? Os felly, beth yw'r pethau hyn?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddai carreg lechen nad oedd yn ddigon da i'w hollti a'i thocio i wneud llechi to, yn cael ei thaflu. Roedd hyn yn arwian at ffurfio tomenni rwbel gwastraff enfawr. Am bob 1 tunnell o lechi a gloddiwyd, cafodd hyd at 9 tunnell o rwbel ei daflu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mhle yn y ffotograff allwch chi weld tomenni gwastraff?
- Beth sydd wedi digwydd i'r tomenni gwastraff dros amser?
- Sut y gellid adfywio'r ardal hon?
- Beth ellid ei adeiladu yn yr ardal hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam y gallai adeiladu yn yr ardal hon fod yn broblem? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa newidiadau y gellid eu gwneud er budd yr amgylchedd? Sut byddai hyn yn fantais?
- Pa newidiadau fyddech chi eu heisiau, pe byddech chi'n byw'n lleol? Pam?

## Sgrîn 6

Rhowch wybod i'r dysgwyr fod Ffos-y-Frân, pwll glo brig olaf Cymru wedi cau yn 2023. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r safle fel arfer yn cael ei adfer. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych yn meddwl ei bod yn bwysig adfer safleoedd fel hyn? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn adfer y safle hwn? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cyn lleied o waith adfer wedi'i wneud ar y dirwedd ar ôl i'r chwareli llechi gau? A ddylai hyn fod wedi digwydd? Pam?
- Sut olwg oedd ar y dirwedd cyn y diwydiant llechi, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen mwy o goed ar y DU a bod angen i'r tir a orchuddir gan goetiroedd gynyddu o 13% i 19% erbyn 2050, er mwyn cyrraedd ein hymrwymiad cenedlaethol o sicrhau carbon sero net. Er gwaethaf plannu miliynau o goed brodorol bob blwyddyn, mae gadael i natur ddilyn ei chwrs hefyd yn ddull effeithiol ac effeithlon o gynyddu gorchudd tir. Adfywiad naturiol yw'r broses a ddefnyddir gan goed, llwyni a phlanhigion unflwydd i hunan-hadu a lledaenu. O dan yr amodau gorau, mae'r rhan fwyaf o blanhigion yn dda iawn am wneud hyn. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

Pam ydych chi'n meddwl bod...

- y Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud bod yn rhaid i orchudd coetir yn y DU gynyddu
- ein nod carbon net sero cenedlaethol yn bwysig
- coed yn darparu gorchudd tir
- gorchudd tir yn helpu planhigion ac anifeiliaid eraill
- coed yn dda am adfywio'n naturiol.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo sy'n dangos adfywiad naturiol.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr mai 'adfywiad naturiol â chymorth' yw pan y rhoddir cymorth i blanhigion ddarparu mwy o orchudd tir. Gwneir hyn fel arfer gan bobl leol, wrth iddynt gael gwared o'r rhwystrau a'r bygythiadau i dyfiant planhigion, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y tir a thraddodiadau eu hynafiaid.

Mae cymorth adfywio naturiol yng Nghymru yn cynnwys adfer fforestydd glaw tymherus hynafol ym Mryn Ifan, Gwynedd. Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn plannu 40 hectar o goedwig law. Bydd yn defnyddio plannu brodorol ac yn cynorthwyo aildyfiant naturiol. Tra bydd rhai ardaloedd yn cael eu neilltuo ar gyfer ffermio sy'n gyfeillgar i natur, bydd cadwraethwyr hefyd yn gwella gwlyptiroedd cyfagos i helpu glöyn byw britheg y gors. Bydd y rhywogaethau coed yn cynnwys derw, bedw a gwern, a bydd yr ardal yn cael ei rheoli gan bori cadwraethol. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwn ni ddefnyddio adfywio naturiol i adfer mwy o dirwedd ddiwydiannol Eryri?
- A ddylem adfer mwy o dirwedd ddiwydiannol Eryri? Os felly, sut?

## Sgrîn 10

Ar y sgrîn hon, darperir testun i ddysgwyr ei ddarllen am dirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru yn cael statws Treftadaeth y Byd gan UNESCO, yn 2021.

## Sgrîn 11

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu arddangosfa o ffotograffau o dirwedd ddiwydiannol Eryri. Bydd yr arddangosfa'n dangos, mewn ffordd ddramatig, 'sut mae pobl, a thirwedd, yn medru cyd-weithio' trwy elwa ar lechi.

Dangoswch y fideo: The slate landscape, north Wales (ychydig dros 6 munud o hyd). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa baratoadau a wnaeth Roger cyn dechrau cymryd y ffotograffau hyn?
- Pa awgrymiadau neu syniadau allwch chi eu cael gan Roger ynghylch sut i gymryd ffotograffau? Rhestrwch gymaint o awgrymiadau neu syniadau ag y gallwch.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i bob grŵp gynllunio sut y byddan nhw'n creu eu harddangosfa, trwy drafod:

- Pa fathau o bethau ydych chi eisiau cymryd ffotograffau ohonyn nhw? Pam?
- I ble byddwch chi'n mynd er mwyn cymryd eich ffotograffau? Defnyddiwch y map i'ch helpu i benderfynu.
- Beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio i gymryd eich ffotograffau? Pam?
- Pa rai o awgrymiadau neu syniadau Roger allwch chi eu defnyddio er mwyn cymryd ffotograffau da?

## Sgrîn 13

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau ar gyfer eu harddangosfa.

## Sgrîn 14

Gofynnwch i bob grŵp ddewis pump o'u ffotograffau gorau. Yna, gofynnwch iddynt rannu'r ffotograffau hyn ag eraill a gofyn am eu barn ynghylch:

- Pa mor dda y mae pob ffotograff yn dangos, mewn ffordd ddramatig, 'sut mae pobl, a thirwedd, yn medru cyd-weithio' trwy elwa ar lechi?

Yn olaf, gofynnwch i bob grŵp ddewis eu ffotograffau terfynol a chynnal eu harddangosfa.

## Sgrîn 15

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio diagram PMD i edrych ar fanteision, anfanteision a'r pethau diddorol ynghylch cloddio am lechi.

## Sgrîn 16

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu syniadau minws (anfanteision/negyddol) a thrafod gyda'r grŵp:

- Sut mae goresgyn pob syniad negyddol (Minws)? Beth fyddai angen i ni ei wneud?